

Oedfa Dydd Gweddi

Diolch i bawb o aelodau'r Ofalaeth a gymerodd ran yn yr oedfaon Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd echdoe yn Neiniolen ac yng nghapel Jerusalem, Bethesda. Diolch hefyd i bawb a fu'n brysyr yn trefnu'r cyfan.

Angladd

Cydymdeimlwn â theulu Mr Alan Parry, Rhydfadog, Deiniolen (19 Pentre Helen synt) a fu farw ddydd Gwener, Chwefror 26. Cynhaliwyd ei angladd yn Amlsgfa Bangor ddydd Gwener, Mawrth 4 dan arweiniad y Gweinidog. Roedd amryw yn yr oedfa yn cofio cyfraniad Alan i waith Radio Ysbyty Gwynedd dros nifer o flynyddoedd.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mawrth 13: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Canon Idris Thomas.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Mawrth, Mawrth 8: Bore Coffi er budd Cronfa Adnoddau'r Capel rhwng 10.45 a 12.00 o'r gloch.

Nos Fawrth, Mawrth 8: Bydd Swper y Gymdeithas yng Ngwesty'r Fictoria am 7.00 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 6

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Mawrth 13

5.00 p.m. - Y Canon Idris Thomas

Mawrth 20

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Y Gweinidog

(Gall fod newid i oedfa'r bore)

Dydd Sul, Mawrth 13: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac Oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 13: Ni fydd oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Mawrth 13: Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Gweinyddir y Cymundeb.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 7: Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 11: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 13: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Mawrth 11: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi wythnosol yn Cartref, Caeathro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 6

10.00 a.m. - Y Parchg Harri Parri
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 13

10.00 a.m.—Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Mawrth 20 (Sul y Blodau)

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul

Mawrth 27 (Sul Pasg)

10.30 a.m. - Oedfa Deulu



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 673: Dydd Sul, 06 Mawrth, 2016

Chwalfa

Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n rhan o gynhyrchiad 'Chwalfa' Y Theatr Genedlaethol yn Pontio ym Mangor. Yn ogystal â'r actorion proffesiynol, roedd criw o bobl leol ar y llwyfan (a wynebaw cyfarwydd i lawer ohonoch yn eu plith), ac mae'n siwr fod pob un ohonynt wedi mwynhau cael bod yn rhan o gynhyrchiad nodedig a roddodd gychwyn mor rhagorol i'r ganolfan newydd.

Fel y gwyddoch, mae'r ddrama hon wedi ei seilio ar nofel arbennig T. Rowland Hughes, sy'n mynd â ni nôl i ddechrau'r ganrif ddiwethaf a Streic Fawr Chwarel y Penrhyn. Un peth a ddaeth yn amlwg trwy'r ddrama oedd mor ofnadwy o galed oedd bywyd i bobl yr ardaloedd hyn yn y cyfnod hwnnw. Tai gwael ac oer, afiechyd a diffyg gofal meddygol, bwyd sâl, tlodi, amodau gwaith caled a chyfflogwyr gormesol. A hynny cyn bod y Streic hyd yn oed, a phethau ganwaith mwy anodd wedyn.

Mwynheais y cynhyrchiad yn fawr, ac mae'n siwr gen i mai dyna hefyd oedd profiad pawb a'i gwelodd. Ac er bod i'r ddrama nifer o olygfeydd trist, ac er mor galed oedd bywyd yn y cyfnod a bortreadwyd, yr oedd i'r ddrama ei neges obeithiol am lwyddiant i'r bobl hynny a fu, ac sy'n dal i sefyll dros gyfiawnder a rhyddid a heddwch ac ati.

Un peth a'm trawodd oedd y ffydd a fu'n gynhalieth i lawer o'r bobl a oedd

yn wynebu'r holl galedi hwn. Mae'n wir fod y ddrama'n darlunio'r rhagrith a'r caledwch oedd, gwaetha'r modd, i'w weld o fewn capeli ac eglwysi'r cyfnod: pobl yn mynd i'r Eglwys er mwyn cael swydd well yn y Chwarel, er enghraifft, a phobl yn y Capel yn ddirugaredd eu hagwedd at ferched beichiog dibriod.

Ond roedd ochr arall bryd hynny fel ym mhob cyfnod, a llawer o bobl yn profi Duw yn gymorth iddynt yng nghanol popeth. Awgrym o hynny oedd y modd yr oedd y bobl yn canu eu hemynau yng nghanol mynd a dod eu brwydr i oroesi a dod trwy'r cyfan yr oedd pawb a phopeth yn ei daflu atynt, a'r emynau hynny yn tystio'n hyderus i ofal tadol Duw o ddydd i ddydd, ac i'r gobaiith oedd ganddynt am fyd gwell y byd tragwyddol oedd i ddod.

Wrth gwrs, nid yw canu emynau o reidrwydd yn brawf o wir ffydd. Mae modd canu emynau yn ddifeddwl ac yn ddiystyr; mae modd canu emyn yr un fath yn union ag y byddech chi'n canu unrhyw gân arall. Ac mae'n bosibl fod llawer o bobl cyfnod 'Chwalfa', fel pob cyfnod arall, wedi gwneud hynny. Ond yr oedd bryd hynny hefyd, ac y mae o hyd, rai sy'n canu cân o fawl i'r Arglwydd am eu cynnal a'u nerthu a'u llenwi â gobaiith y bywyd tragwyddol sydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae pobl felly, ym mhob oes, yn canu nid am fod pawb arall yn canu, ond am fod Duw wedi rhoi cân o fawl yn eu calon.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'O Arglwydd fy Nuw, ynot ti y
llochesaf; gwared fi rhag fy holl
erlidwyr, ac arbed fi, rhag iddynt fy
llarpio fel llew, a'm darnio heb neb i'm
gwaredu' (Salm 7:1).

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed
bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Capel Coch
am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Harri
Parri, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am
11.15 o'r gloch..

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr
oedfa Gymun am 5.00 o'r gloch gan y
Gweinidog.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r
gloch gan y Parchg Eifion Williams,
Llanfairfechan.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r
gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Ebeneser

Fel y soniwyd yr wythnos ddiwethaf,
mae swyddogion Ebeneser yn awgrymu
mai'r peth gorau i'w wneud erbyn hyn
yw peidio â chynnal oedfa'r bore ond
annog pawb o aelodau Ebeneser a
Chefnywaun i ymuno â'r oedfa undebol a
gynhelir yn y pnawn neu gyda'r nos.

Bydd cyfle i aelodau Ebeneser drafod y
mater yn yr oedfa heddiw, a'r awgrym
yw ein bod yn cychwyn y drefn newydd
hon ar unwaith. Bydd hyn yn cryfhau'r
berthynas rhwng y ddwy eglwys ac yn
golygu y bydd un gynulleidfa fwy gyda'i
gilydd ar y Sul.

Carmel Pasg

Bwriedir cynnal cyfarfod arbennig i
ddathlu'r Pasg yng nghapel Carmel yng
ngwmni'r Parchg Casi Jones, Swyddog
Adnoddau yr Annibynwyr yn y Gogledd.
Bydd y cyfarfod ar noson waith, ac yn
gyfle i feddwl am neges y Pasg mewn
gwasanaeth gwahanol i'r hyn yr ydym
wedi arfer ag o. Cawn gadarnhau'r
dyddiad y Sul nesaf.

Angladd

Cynhaliwyd angladd Mrs Margaret
Hughes, Llys Helyg, Talybont yn yr
Amlosgfa ym Mangor ddydd Gwener,
Mawrth 4 dan arweiniad y Gweinidog.
Bu hi a'i diweddar ŵr, Derek, yn aelodau
ffyddlon o'r eglwys ym Methlehem am
rai blynyddoedd, a gwelwyd ei cholli o'r
oedfaon wedi iddi gael ei tharo'n wael
bedair blynedd yn ôl. Hyd at rai misoedd
yn ôl cafodd ofal da yng Nghartref Bryn

Llifon ym Mangor, ac wedi cau'r Cartref
hwnnw bu mewn cartref yng Nghilgwri,
lle bu farw ar Fawrth 10.

Roedd hi a'i gŵr yn hanu o Fethesda,
ond buont yn byw mewn sawl ardal cyn
dychwelyd i'w bro genedigol a chartrefu
yn Nhalybont. Wedi dod i Dalybont,
ymaelododd y ddau ym Methlehem a dod
yn aelodau gwerthfawr o'r eglwys yno.
Cydymdeimlwn â'i phlant, Alastair a
Fiona a'u teuluoedd yn eu colled.

Angladd

Bu farw Mrs Eirian Pritchard, Plas
Ogwen (gynt o 18 Rhes Elfed, Bethesda)
yn Ysbyty Gwynedd ddydd Mawrth,
Mawrth 1, yn 89 mlwydd oed. Roedd ei
hangladd yng Nghapel Carmel ddoe,
ddydd Sadwrn, Mawrth 5 dan arweiniad
y Gweinidog, a'r cyn-weinidog y Parchg
Geraint Hughes, a'r Parchg Dafydd
Coetmor Williams. Cafwyd teyrnged
gan ei chyfnither Mary.

Roedd Mrs Eirian Pritchard yn aelod
ffyddlon iawn o'r eglwys yng Ngharmel
ar hyd y blynyddoedd. Wrth ei gwaith,
athrawes oedd hi, ac yr oedd yn wraig
annwyl a deallus a bonheddig iawn. Bu'n
athrawes Ysgol Sul am flynyddoedd. Ei
diweddar ŵr, Amwel Pritchard, oedd
ysgrifennydd yr eglwys am gyfnod hir.
Parhaodd hithau i ddod yn ffyddlon i'r
oedfaon a holl gyfarfodydd yr eglwys, a
dim ond llesgedd a'i rhwystrodd rhag
gwneud hynny'r misoedd diwethaf hyn.

Estynnwn ein cydymdeimlad i'w mab
Gareth a'i briod Janet, a'u plant a'r teulu
cyfan yn eu hiraeth a'u colled.

Cymdeithas Llanberis

Cynhelir Swper Blynyddol Cymdeithas
Undebol Llanberis yr wythnos hon, yng
Ngwesty'r Fictoria nos Fwrth, Mawrth 8.
Bydd angen bod yno erbyn 7.00 o'r
gloch, yn Neuadd Arfon i fyny'r grisiau.

LLANW 16

Bydd cynhadledd neu ŵyl LLANW yn
cael ei chynnal yng Nghricieth am yr
eildro yn ystod yr wythnos wedi'r Pasg, o
ddydd Llun, Mawrth 28 hyd nos Iau,
Mawrth 31. Mae LLANW wedi dos â
phobl o bob rhan o'r wlad at ei gilydd i
fwynhau cymdeithas ac addoliad
Cristnogol ers oddeutu deng mlynedd
erbyn hyn, ac mae'n tyfu a datblygu bob
blwyddyn. Dyma'r eildro iddi gael ei
chynnal yn y Gogledd, yng Nghricieth,
ac mae felly'n gyfle arbennig i ni bicio
draw i ambell un o'r cyfarfodydd, os nad
i'r cyfan. Mae'n bwysig nodi fod yna
groeso i bobl fynd i gyfarfod neu ddau yn
unig. Os rhywbeth, mae yna gymaint o
bobl yn gwneud hynny ag sy'n aros yno
am yr wythnos gyfan. Cynhelir oedfa
bob nos a bob bore. Mae gwahanol bobl
yn arwain yr addoliad ac yn pregethu bob
dydd. Bydd y cyfarfodydd yn y Neuadd Goffa
(ar y Sgwâr yng Nghricieth).

Am 7 o'r gloch o nos Lun hyd nos Iau,
pregethir gan y canlynol:
Nos Lun: Steffan Morris, Llanuwchllyn
Nos Fawrth: Huw Powell Davies, Yr
Wyddgrug
Nos Fercher: Derek Rees, Llanelli
Nos Iau: Gwilym Jeffs, Caerdydd

A,m 10.00 o'r gloch fore Mawrth,
Mercher ac Iau, ceir anerchiadau gan y
Parchg Mark Thomas, sy'n weinidog yn
Wrecsam.

Gallaf eich sicrhau ei bod yn werth mynd
i LLANW i brofi cynhesrwydd y
gymdeithas a'r addoliad.

Oedfa Gŵyl Ddewi

Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr
Oedfa Gŵyl Ddewi yng nghapel Carmel
Llanllechid fore Sul diwethaf. Clywyd
canmol a gwerthfawrogiad mawr gan
amryw a oedd yno.